# Cynllun Corfforaethol
2022 i 2027

grŵp newydd



## Beth yw nodau Newydd?

Eich cartref, eich cymuned, eich dyfodol.

## Beth ydym ni eisiau bod?

Cymdeithas dai sydd ymysg y perfformwyr gorau, lle mae'r staff eisiau gweithio i helpu adeiladu cymunedau cynaliadwy a dyfodol gyda sicrwydd ariannol.

# Cyflwyniad

## Claire Marshall, Cadeirydd Grŵp Newydd a Jason Wroe, Prif Weithredwr

Mae gan Grŵp Newydd Cyf. weledigaeth a rennir i ddarparu tai fforddiadwy a chefnogi cymunedau cynaliadwy gyda gwasanaethau rhagorol i denantiaid a chwsmeriaid. Mae Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. yn gymdeithas tai elusennol sy'n cynnig 3,000 o dai fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu i bobl lle mae'r angen ar ei fwyaf ledled de a chanolbarth Cymru.

Mae dau aelod arall o'r Grŵp, Newydd Maintenance Ltd a Living Quarters (Lettings & Sales) Wales Ltd, yn darparu gwasanaethau cynnal a chadw a gosod/gwerthu i'r Grŵp.

Mae Grŵp Newydd eisiau cefnogi ein cymunedau i dyfu mewn amgylchedd cynaliadwy a diogel. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Bwrdd wedi datblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn i yrru'r sefydliad yn ei flaen a sicrhau ein bod yn cydweithio er mwyn cwrdd ag anghenion ein tenantiaid a'n cymunedau, gan gyflawni amcanion polisi ein partneriaid bob cam o'r ffordd.

Mae'r argyfwng tai yn parhau - mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon-isel newydd erbyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol. Mae Grŵp Newydd yn anelu i gyfrannu tuag at y nod strategol hwn drwy ddarparu 600 o gartrefi carbon-isel dros gyfnod y cynllun corfforaethol ledled y prif ardaloedd awdurdodau lleol yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn parhau – mae Newydd eisiau gwneud ei rhan mewn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac mae'n anelu i gefnogi Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio er mwyn gostwng allyriadau carbon ledled ein stoc.

Mae'r pandemig COVID-19 yn parhau – mae Newydd eisiau cefnogi tenantiaid a chymunedau i adfer o effeithiau'r pandemig i fyw unwaith eto mewn cymunedau ffyniannus â dyfodol disglair.

Mae diogelwch tenantiaid, safon y stoc tai a gwerth am arian yn parhau i fod yn flaenoriaethau uchel ar gyfer y Bwrdd. Mae Newydd yn anelu i sicrhau bod tenantiaid yn byw mewn tai diogel, fforddiadwy a safonol, ac yn derbyn gwasanaethau landlord rhagorol.

Mae cyflwyno strategaeth hirdymor yn dangos ein bod yn ymwybodol o raddfa'r heriau rydym yn eu hwynebu, o ôl-osod dros dair mil o dai i fod yn garbon-sero a chwrdd â safonau diogelwch adeiladu uwch, i archwilio ffyrdd newydd o godi'r cyllid sylweddol sydd ei angen er mwyn parhau i adeiladu mwy o'r mathau iawn o gartrefi yn y lleoedd iawn.

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn gosod allan y siwrnai hon dros y 5 mlynedd nesaf, ond mae hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer siwrnai llawer hirach dros y 30 neu 50 mlynedd nesaf, ac yn sicrhau bod Grŵp Newydd ar y trywydd iawn er mwyn parhau i gefnogi ein cymunedau i dyfu mewn amgylchedd cynaliadwy a diogel.



# Beth ydym ni eisiau ei wneud?

Rydym eisiau cefnogi ein cymunedau i dyfu mewn amgylchedd cynaliadwy a diogel.

Rydym eisiau bod yn gymdeithas dai sydd ymysg y perfformwyr gorau, lle mae'r staff eisiau gweithio i helpu adeiladu cymunedau cynaliadwy a dyfodol gyda sicrwydd ariannol.

Rydym eisiau cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn "Rhaglen Lywodraethu 2021–2026" a'r Datganiad Llesiant cysylltiedig.

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd Sero Net erbyn 2050 ac rydym yn datblygu cynlluniau i gyflawni hyn.

Rydym eisiau darparu tai diogel ar gyfer pobl ddigartref, a chyfrannu tuag at ddatblygiad a gweithrediad strategaethau digartrefedd ein hawdurdodau lleol partner.

Rydym eisiau cefnogi ein tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau a sicrhau bod ein rhenti yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Rydym eisiau cadw ein tenantiaid yn ddiogel a'n heiddo wedi eu cynnal a'u cadw i safon uchel.

Rydym eisiau helpu ein cymunedau i adfer o'r pandemig COVID-19.

Rydym eisiau darparu gwasanaethau rhagorol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau o fewn ein cymunedau.

Rydym eisiau cefnogi ein partneriaid rhanddeiliaid lleol i gyflawni eu huchelgeisiau:

- Amcanion Cyngor Bro Morgannwg a gyhoeddwyd yn "Gweithio Gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach: Y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020–2025"
- Amcanion CBS Rhondda Cynon Taf yn "Gwneud Gwahaniaeth – Cynllun Corfforaethol 2020–2024"
- Amcanion Cyngor Sir Powys yn "Powys 2025"



# Ein gwerthoedd - ein hegwyddorion arweiniol a'n credoau

## G onest

> Rydym yn onest, yn agored ac yn deg wrth ddelio â phobl ac â sefydliadau partner.

> Rydym yn parchu cyfrinachedd a'r angen i amddiffyn data sensitif.

> Rydym ni am i bobl fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau rydyn ni'n eu cymryd, ac am iddynt eu deall, ac rydym yn atebol am ein gweithredoedd.

> Rydym yn cyflawni hyn trwy hysbysu ein rhanddeiliaid yn gyson, yn rheolaidd ac yn llawn.

## G alluo gi

> Mae ein gwasanaethau yn grymuso ein tenantiaid i fedru cynnal eu tenantiaethau, a helpu eu cymunedau i ddatblygu a thyfu.

> Rydym yn anelu i alluogi ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallan nhw ac i dyfu a datblygu eu gyrfaoedd.

> Rydym yn anelu i alluogi ein rhanddeiliaid i ddarparu eu huchelgeisiau.

## Arloesol

> Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn.

> Rydym yn addasu ac yn ymateb yn gyflym, ac yn cymryd pob cyfle i ddysgu o brofiad.

> Rydym yn ymddiried yn ein staff ac yn annog syniadau newydd, gan alluogi staff i geisio gwella gwasanaethau.

## Care dig

> Rydym yn sylwi pan mae pobl yn dioddef ac yn cymryd camau i helpu.

> Rydym eisiau helpu ein gilydd, tenantiaid a chymunedau.

> Rydym yn gwrando ar beth sydd gan bawb i'w ddweud .


> Rydym yn garedig.

## Ffocws ar bobl

> Rydym yn cydnabod ac yn canmol perfformiad da.

> Rydym yn ymgysylltu â, gwrando ar ac yn dysgu wrth staff, tenantiaid a rhanddeiliaid.

> Rydym yn cofleidio amrywiaeth a chynhwysiant.



# Ein targedau

## Twf

> Tyfu'r sefydliad gan o leiaf 20% o ran maint y stoc erbyn 2027.

> Cefnogi ein cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd.

> Sicrhau bod gennym ni sail cyllid cryf i gefnogi uchelgeisiau datblygu.

## Cynaliadwye dd

> Parhau i fod yn sefydliad sy'n ariannol hyfyw.

> Gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddatgarboneiddio ein heiddo erbyn 2050.

> Sicrhau bod ein tenantiaethau yn gynaliadwy.

> Sicrhau bod ein cymunedau yn gryf.

> Sicrhau bod ein rhenti yn parhau'n fforddiadwy.

## Dio gelwch

> Sicrhau bod ein holl denantiaid yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.

> Sicrhau bod ein holl ddata a data ein tenantiaid yn ddiogel.

> Sicrhau bod ein cydweithwyr yn teimlo'n ddiogel wrth wneud eu gwaith.

## Cefnogaeth

> Cefnogi tenantiaid i fyw yn eu cartrefi.

> Cefnogi cydweithwyr i ddarparu gwasanaethau rhagorol.

> Darparu gwybodaeth a chefnogaeth ariannol i denantiaid.

> Gweithredu diwylliant Dulliau Adferol ledled y sefydliad.

## Gwasanaethau Rhagorol

> Cwrdd ag, a mynd y tu hwnt i, ddisgwyliadau ein cwsmeriaid.

> Gwrando ar, ymgysylltu â, a bod yn fwy cynrychioliadol o'n tenantiaid.

> Darparu gwasanaethau sy'n cefnogi awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gwrdd â'u hamcanion.



# Tuag at ein gweledigaeth

## Erbyn 2027 byddwn wedi:

### Twf

> Ychwanegu 600 o dai ar rent cymdeithasol.

> Ystyried darpariaeth rhaglen grant effeithiol ar gyfer tai nad ydynt yn gymdeithasol, a strategaeth gyllido fydd yn cefnogi'r uchelgeisiau datblygu.

> Sicrhau fod gennym ni ddigon o staff gyda'r sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau cywir.

> Darparu uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol.

### Cynaliadwye ddd

> Cadw bwlch wrth gefn o o leiaf 20% yn erbyn y cyfamod sicrwydd llog tynnaf.

> Cadw bwlch wrth gefn o o leiaf 5% yn erbyn y cyfamod gerio tynnaf .

> Cyllido ar gyfer 30% o warged gweithredu ar y gosodiad cyllido blynyddol.

> Cyhoeddi adroddiad sy'n arddangos ein effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

> Sicrhau y bydd pob cartef a adeiledir o'r newydd yn garbon niwtral ac y bydd 30% o gartrefi Newydd sy'n bodoli'n barod yn garbon niwtral.

> Dros 95% o denantiaethau yn para mwy na 3 blynedd i leihau methiant tenantiaeth.

> Dros 90% o denantiaid yn fodlon gyda'u cymdogaeth fel lle i fyw.

### Safety

> Dim eiddo ag unrhyw faterion cydymffurfiaeth i'w datrys .

> 99% o waith trwsio brys wedi'i gwblhau ar amser.

> 98% o waith atgyweirio wedi'i gwblhau yn iawn y tro cyntaf .

> Heb gael unrhyw achosion adroddadwy.


> Wedi cwblhau'r holl hyfforddiant diweddaru Iechyd a Diogelwch blynyddol .

> Heb gael unrhyw dor diogelwch data.

> Heb golli unrhyw ddata tenantiaid na staff o ganlyniad i ymosodiadau seiber.

> Heb gael unrhyw ddigwyddiadau yn arwain at gyhuddiad o ddynladdiad corfforaethol.

> Heb gael unrhyw dorriadau o reoliadau ariannol na rheolau sefydlog.



# Tuag at ein gweledigaeth

## Erbyn 2027 byddwn wedi:

### Cefnogaeth

> Sicrhau boddhad o dros 90% gyda thenantiaid sy'n defnyddio gwasanaethau cefnogi a gwasanaethau byw'n annibynnol.

> Sicrhau boddhad o dros 90% gyda staff rheng flaen ar gyfer y gwasanaethau cefnogi oddi wrth Cyllid, Marchnata, Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol .

> Sicrhau bod Grŵp Newydd yn cael gwobr aur Buddsoddwyr Mewn Pobl.

> Sicrhau bod Grŵp Newydd yn cael canlyniad 3* Cwmniau Gorau.

> Cynnal adolygiad strategol o ddarpariaeth cefnogi tenantiaeth.

> Llwyr weithredu diwylliant Dulliau Adferol ledled y sefydliad.

### Gwasanaethau Rhagorol

> Cyrraedd boddhad cyffredinol o dros 90%, gyda 60% yn "Fodlon Iawn".

> Cynnal boddhad uchel mewn perthynas â'r tri awdurdod lleol sy'n bartneriaid allweddol i Newydd.

> Cyrraedd statws rheoleiddiol "Gwyrdd" mewn Llywodraethu a Hyfywedd Ariannol Cynnal adolygiad strategol er mwyn gwella ein dulliau ymgysylltu tenantiaid Cyrraedd boddhad o dros 80% o ran "Pa mor fodlon ydych chi bod Newydd yn gwrando ar eich barn ac yn gweithredu arno?"

> Cael gwobr Tai Pawb QED am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

> Dod yn fwy cynrychioliadol ar lefel Bwrdd a staff.



grŵp newydd



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein Cynllun Corfforaethol, mae croeso i chi anfon e-bost i ymholiadau@newydd.co.uk